# Beth yw Deugraff?

**Pâr o lythrennau** a ddefnyddir mewn iaith ysgrifenedig yw **deugraff**.

Mae deugraff yn creu **sain arbennig** (sy'n cael ei alw'n '**ffonem**').

Yn aml defnyddir deugraff ar gyfer sain na all gael ei greu gan un llythyren yn unig e.e. **ch** yn y Gymraeg.

## Deugraffau yn y Gymraeg

**12**

Mae yna deuddeg deugraff yn y Gymraeg. Mae wyth ohonynt yn rhan o'r wyddor (**ch**, **dd**, **ff**, **ng**, **ll**, **ph**, **rh**, **th**) a'r gweddill ddim **mh**, **nh**, **si**, **ts**.

## Ble mae'r ddeugraff yn ymddangos?

Mae'r ddeugraff yn ymddangos yn rhan o eiriau o bob math ac hefyd oherwydd treiglo.

a**ch**os

co**ff**i

fy **ng**wallt

ei **ph**en

newy**dd**

**ts**iaen

**ll**wy

pe**th**au

Mewn **croesair** neu **chwilair** mae deugraff yn cael ei ystyried yn **1 llythyren**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| y | | h | | | A |
| **ch** | w | y | **th** | o | **dd** |
| | | **ll** | | | a |

**Dd**

# Dafydd Hedd

Rhowch gylch am bob **dd**




Un da yw Dafydd. Mae'n golchi ei ddanedd, gwisgo'i ddillad a gorffen ei ddysgl o *Cheerios* a'i ddiod o sudd oren bob dydd. Yna, ym mhob tywydd mae'n cerdded ar hyd y ffordd i'r ysgol, hebio i neuadd y pentref, siop y cigydd a'r tai newydd.

Yn yr ysgol, mae Dafydd un da am ddeall, am ddysgu ac am ddarllen yn ddistaw. Mae'n meddwl am bethau'n ofalus ac mae'n weddol dda hefyd am ddweud ei ddweud yn ei ddosbarth. Mae o'n haeddu marciau da yn aml. Da ydi Dafydd Hedd.

Mae Dafydd yn hoffi'r ysgol. Mae addysg yn bwysig iddo achos ei fod eisiau llwyddo pan mae o'n ddyn.

Ond mae Dafydd hefyd yn dda am ddrysu rhai pethau. Ddoe rhoddodd ddwy esgid wahanol am ei ddwy droed. Roedd o'n edrych yn ddigri iawn.

Da ydi Dafydd Hedd – ond ddim mor dda â hynny!

Ysgrifennwch **6 gair** dydd yn cynnwys '**dd**' ond sydd **ddim yn y stori** uchod:

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |